

Y Duwdod yn gefn

“Ac yn awr, yr wyf fi gyda chwi yn wastad hyd ddiwedd amser.” (adn. 20)

Beth am ddarllen Mathew 28: 16–20 ac yna myfyrio

Heddiw, rydyn ni'n dychwelyd at eiriau olaf Iesu, y tro yma er mwyn myfyrio ar ei addewid i fod gyda ni *yn wastad*, hyd ddiwedd amser. Un broblem allai godi gyda'r addewid hon yw bod y llawenydd a'r wefr o'i bresenoldeb di-ffael hyd ddiwedd amser yn mynd â'n bryd gymaint fel ein bod yn anghofio'r weledigaeth eithriadol o Iesu sydd i'w chael yma.

Rydyn ni wedi nodi'r tebygrwydd rhwng sgysiau ffarwel Iesu a rhai Moses o'r blaen. Mae cymharu fel hyn yn gwneud y cyferbyniadau yn fwy nodedig fyth. Mewn gwirionedd, mae Moses, yn ei neges olaf i'r Israeliaid wrth iddynt fynd i mewn i wlad Canaan, yn dweud: “Ewch i Wlad yr Addewid, gan addysgu a sylwi ar y cyfan mae Duw wedi ei orchymyn yn ei gyfraith, a bydd presenoldeb Duw gyda chi bob amser.” Mewn cyferbyniad, mae Iesu'n dweud: “Ewch i *fyd* yr addewid,” ac yn hytrach na gorchymyn iddynt addysgu'r hyn mae Duw wedi ei orchymyn, mae'n dweud wrthynt am wneud disgyblion “a dysgu iddynt gadw'r holl orchymynion a roddais i chwi” (adn. 20). Sylwch ar y cymal: “a roddais i chwi”. Pwy ydy'r person yma sy'n gwneud y fath honiadau a'r fath addewidion? Pwy ond Duw Israel sydd â'r hawl i siarad a gweithredu fel mae Ef yn ei wneud? Pwy yn wir! Ond yna does dim ond un casgliad i hyn oll: sef bod awdurdod, gwirionedd a phresenoldeb personol Duw'r Creawdwr ynghlwm mewn ffordd unigryw ac annatod yn y person Iesu yma.

Unwaith y byddwn wedi dod i'r casgliad yma, yna prin y byddwn yn synnu ein bod wedyn yn gallu mynd ati i genhadu i'r byd, nid yn unig gyda'r cof am Iesu i'n sbarduno ymlaen, ond â phresenoldeb byw Iesu fel “Duw gyda ni” (Math. 1:23) yn cydgerdded â ni. Iesu yw Duw, ac mae ei bresenoldeb ef yn golygu bod y Duwdod yn gefn i ni.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Eseia 7:13–14; Math. 1:18–25; Ioan 10:22–38

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth yw arwyddocâd y teitl ‘Immanuel’ a'r enw ‘Iesu’?
2. Beth mae Iesu'n ei ddweud am y Tad?

Gweddi

O Dduw fy Nhad, mae'n gysur mawr gwybod fy mod mewn cysylltiad â'r Duwdod cyfan pan fyddaf yn rhoi fy llaw yn llaw Iesu. Os oes unrhyw ddiffyg, yna nid diffyg adnoddau mo hynny, ond diffyg ymddiriedaeth. Dw i'n credu, helpa fi i oresgyn f'anghrediniaeth. Yn enw Iesu. Amen.